Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
www.culture.gov.uk

Tachwedd 2005

Arweiniad i bartïon sydd â diddordeb: Gwneud cais am Adolygiad

Mae'r arweiniad hwn yn disgrifio sut i wneud cais am adolygiad o drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y broses gwrandawiadau sy'n dilyn cais o'r fath.

Fe all "parti sydd â diddordeb" wneud cais am adolygiad o drwydded neu dystysgrif sydd mewn grym.
Fe all awdurdod trwyddedu wrthod cais am adolygiad os yw wedi'i fodloni nad yw'r sail ar gyfer adolygiad yn berthnasol i un neu fwy o'r amcanion trwyddedu:

- Atal trosedd ac anhrefn;
- Diogelwch y cyhoedd;
- Atal niwsans cyhoeddus; ac
- Amddiffyn plant rhag niwed

Fe all yr awdurdod trwyddedu wrthod unrhyw sail am adolygiad os yw o'r farn ei fod yn "wamal", "blinderus" neu'n "ailadroddus".

Beth a olygir wrth sylwadau gwamal neu flinderus?

Bydd "gwamal" neu "flinderus" yr un fath â'u hystyr arferol. Yr awdurdod trwyddedu sydd i benderfynu a yw sylwadau yn wamal neu flinderus. Er enghraifft, mae'n bosib y byddai awdurdod trwyddedu yn barnu bod sylwadau yn flinderus pe baent yn codi oherwydd anghydfod rhwng busnesau neu'n wamal os nad oeddent yn amlwg yn sylwadau difrifol.

Beth a olygir wrth "ailadroddus"?

Mae sylwadau "ailadroddus" yn golygu sylwadau sydd union yr un fath neu'n sylweddol debyg i:

- *Sail am adolygiad mewn cais blaenorol, sydd eisoes wedi'i bennu (bydd "cofrestr trwyddedau'r" awdurdod trwyddedu yn cynnwys pob cais am adolygiad a wnaed i'r awdurdod yn y gorffennol)*
- *Sylwadau a ystyriwyd gan yr awdurdod trwyddedu pan ganiatawyd y drwydded mangre yn y lle cyntaf*
- *Sylwadau a wnaed pan gyflwynwyd y cais am drwydded mangre yn y lle cyntaf ac a eithriwyd oherwydd bod datganiad dros dro wedi'i gyhoeddi'n flaenorol*
- *Yn ychwanegol i'r sail uchod, nid oes bwlch amser rhesymol wedi pasio ers adolygiad blaenorol neu ers caniatáu'r drwydded*

Ni fwriedir y broses adolygu i'w defnyddio yn unig fel ail gyfle yn dilyn methiant sylwadau i ddarbwyllo'r awdurdod trwyddedu ar adegau cynharach. Mater i'r awdurdodau trwyddedu eu hunain yw barnu beth ddylid ei ystyried fel "bwlch rhesymol" mewn amgylchiadau o'r fath. Fodd bynnag, mae'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ei harweiniad i Awdurdodau trwyddedu) yn awgrymu na ddylid caniatáu mwy nag un adolygiad gan barti sydd â diddordeb o fewn cyfnod o ddeuddeg mis ar sail debyg, ac eithrio mewn amgylchiadau pwerus (e.e. lle mae problemau newydd wedi codi) neu lle mae'n codi yn dilyn gorchymyn i gau.

Ni all partïon sydd â diddordeb wneud cais dienw am adolygiad, hyd yn oed os oes rhywun arall (e.e. AS neu gynghorydd lleol) yn gwneud cais am adolygiad ar eu rhan. Mae hyn oherwydd, er enghraifft, bod angen bodloni'r awdurdod trwyddedu bod yr unigolyn sy'n gofyn am adolygiad yn byw yng nghyffiniau'r fangre, ac nad yw'n ymddwyn yn flinderus. Mae hefyd yn bwysig bod deiliad y drwydded yn gallu ymateb i'r cais am adolygiad, er enghraifft, os ydynt o'r farn nad yw'r sawl sy'n gwneud cais yn byw yn y cyffiniau. Os yw partïon sydd â diddordeb yn ymboeni am fygythiadau posib, fe allent ystyried gofyn i'r heddlu, neu awdurdod cyfrifol perthnasol arall wneud cais am adolygiad ar eu rhan.

Cyn gwneud cais am adolygiad, efallai y bydd partïon sydd â diddordeb am ystyried a fyddai modd delio'n fwy effeithiol â'u pryder(on) y tu allan i broses ffurfiol adolygiad. Fe allai hyn olygu, er enghraifft:

- Siarad gyda deiliad y drwydded neu'r dystysgrif er mwyn penderfynu a oes unrhyw gamau y byddent yn barod i'w cymryd i gywiro'r sefyllfa
- Gofyn i adran drwyddedu eich cyngor i siarad â deiliad y drwydded ar eich rhan
- Gofyn i'ch AS neu Gynghorydd lleol i siarad â deiliad y drwydded neu'r dystysgrif ar eich rhan
- Siarad gyda'r "awdurdod cyfrifol" perthnasol (e.e. iechyd yr amgylchedd mewn perthynas â niwsans s□n, neu'r heddlu mewn perthynas â throsedd ac anhrefn) er mwyn pennu a oes yno ddeddfwriaeth arall a allai ddatrys y mater

Pethau y byddwch am eu hystyried efallai wrth geisio am adolygiad?

- Fe allai fod o gymorth i gael cefnogaeth pobl neu fusnesau eraill yng nghyffiniau'r fangre, neu "awdurdodau cyfrifol" eraill.

- Edrychwch ar gofnodion swyddogol eich awdurdod trwyddedu ynglŷn â'r fangre, a gedwir yn eu "cofrestr trwyddedu". Bydd hyn yn dangos i chi a yw pobl eraill wedi gofyn am adolygiad o'r fangre yn y gorffennol.

- Os ydych yn meddwl am drefnu deiseb, mae'n bwysig sicrhau bod yr awdurdod trwyddedu yn gallu canfod a yw'r sawl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb o fewn cyffiniau'r fangre. Felly, byddai o gymorth cynnwys cyfeiriadau a nodi'n glir pa sylwadau y maent yn eu cyflwyno. Byddai hefyd o gymorth pe bai llefarydd yn gwirfoddoli i dderbyn manylion am y gwrandawiadau ayb. gan yr awdurdod trwyddedu ac efallai y byddant yn barod i siarad ar ran y deisebwyr yn y gwrandawiad.

- Os ydych am ofyn i unigolyn arall, megis AS neu Gynghorydd lleol, i'ch cynrychioli yn yr adolygiad, awgrymir y dylid cyflwyno cais o'r fath yn ysgrifenedig fel bod yr unigolyn yn gallu dangos iddo/iddi dderbyn cais i wneud hynny. Mater i'r AS neu'r Cynghorydd fydd penderfynu a ddylai gytuno i'ch cais. Nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny, er hynny, bydd y rhan fwyaf o gynrychiolwyr etholedig yn barod i helpu trigolion gyda mater o'r math yma, ac nid yw'n ofynnol iddynt fyw yng nghyffiniau'r fangre dan sylw iddynt allu siarad ar ran trigolion sydd yn byw yn ardal y fangre. Dylid nodi na fydd cynghorwyr sy'n aelodau o bwyllgor gwrandawiad trwyddedu'r cais yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth gyda chi ynghylch y cais, y tu allan i'r gwrandawiad ffurfiol, felly awgrymir na ddylech gysylltu â hwynt i'r diben yma.

- Yng nghyswllt digwyddiadau unigol, ceisiwch gael cymaint o wybodaeth â phosib am unrhyw ymateb swyddogol (e.e. - yr heddlu'n cael eu galw allan)

- Mae'n bosib hefyd y gallwch gefnogi eich cais gyda data megis ystadegau troseddu. Fodd bynnag, dylid nodi na all amodau a roddir ar drwydded geisio rheoli ymddygiad cwsmeriaid unwaith y maent y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol deiliad y drwydded a'i staff neu asiantiaid, ond fe all effeithio'n uniongyrchol ar ymddygiad y rhai sydd o dan gyfarwyddyd deiliad y drwydded pan fônt yn ei fangre neu yng nghyffiniau'r fangre wrth iddynt geisio cael mynediad neu adael y fangre.

- Os oes yno niwsans sŵn cyffredinol ar y strydoedd oherwydd mangre trwyddedig, mae'n debygol y bydd angen i chi ddangos sut y mae'n berthnasol i'r fangre benodol.

- Mae'n bwysig gallu cefnogi eich haeriadau. Gallech wneud hyn trwy gadw dyddiadur dros gyfnod o amser, er enghraifft. Gallai recordiadau sain neu fideo hefyd fod o gymorth. Efallai hefyd y bydd ychydig o amser yn mynd heibio cyn cynnal unrhyw wrandawiad, felly byddai'n syniad da cadw cofnod eglur.

- Dylai trigolion neu fusnesau sy'n gwneud cais am adolygiad yn dilyn digwyddiad penodol fod yn ofalus, oherwydd fe all deiliad trwydded ddadlau mai problem neilltuol ar y pryd oedd hyn a bod modd cywiro'r mater heb gynnal adolygiad.

- Dylech ystyried sut yr hoffech chi weld y sefyllfa yn cael ei datrys.

Gwneud cais am Adolygiad

Mae'n rhaid gwneud cais am adolygiad trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb yn ysgrifenedig ac ar y ffurflen gais rhagnodedig, sydd ar gael i'w hargraffu neu ei lawrlwytho o DCMS:

www.culture.gov.uk/alcohol_and_entertainment/licensing_Appforms

Bydd y ffurflen hon hefyd ar gael trwy ofyn i'ch awdurdod trwyddedu, ac efallai y bydd ar gael ar wefan eich awdurdod lleol. Fe all awdurdodau trwyddedu wneud darpariaeth ar gyfer gwneud ceisiadau electronig am adolygiad.

Llenwi'r ffurflen

Yn y datganiad agoriadol dylech nodi enw'r sawl sy'n gwneud cais am yr adolygiad - e.e. 'John Smith'. Dylech hefyd nodi a ydych yn gwneud cais am adolygiad "trwydded mangre" neu "dystysgrif mangre clwb" trwy ddileu'r cymal amherthnasol.

RHAN 1 – Manylion y fangre neu fangre clwb

Mae'r adran hon yn gofyn i chi am gyfeiriad a rhai manylion eraill ynghylch y fangre dan sylw yn yr adolygiad. Os nad oes gan y fangre gyfeiriad post dylech ddisgrifio lleoliad y fangre neu roi cyfeirnod map arolwg ordnans.

Gofynnir i chi hefyd roi enw a rhif deiliad y drwydded mangre neu glwb. Dylai'r wybodaeth yma fod ar gael ar "Grynodeb" o'r drwydded neu'r dystysgrif, a fydd yn cael ei arddangos ar y fangre sydd yn destun y cais am adolygiad, neu gellir gwneud cais am y wybodaeth trwy ofyn i adran drwyddedu eich awdurdod lleol.

RHAN 2 – Manylion y sawl sy'n gwneud cais

Mae'r adran hon yn gofyn i chi nodi ym mha swyddogaeth yr ydych yn gwneud cais am adolygiad. Fel "parti sydd â diddordeb" mae'n rhaid i chi allu ticio o leiaf un o'r blychau o dan (1), yna cwblhau adran (A) - Manylion yr unigolyn sy'n gwneud cais, ac os yw hynny'n berthnasol, adran (B) - Manylion unigolyn arall sy'n gwneud cais (e.e. - preswylydd arall)

Mae'n rhaid i gais am adolygiad trwydded neu dystysgrif ymwneud ag effaith trwydded ar o leiaf un o'r pedwar amcan trwyddedu (gweler uchod). Dylech nodi at ba amcan (ion) trwyddedu y mae'r cais yn cyfeirio.

Dylech nodi'r sail(seiliau) am adolygiad, a darparu cymaint o wybodaeth â phosib i gefnogi'r cais. Gallwch ddefnyddio tudalennau papur ychwanegol os oes angen. Fer all manylion gynnwys, er enghraifft, dyddiadau pryd digwyddodd problemau a sut yr effeithiodd y broblem arnoch chi.

Dylech nodi a ydych wedi gwneud cais am adolygiad sy'n ymwneud â'r fangre yma o'r blaen, a rhoi manylion pellach ynghylch unrhyw sylwadau a wnaed gennych o'r blaen ynglŷn â'r fangre yma. Defnyddir y wybodaeth yma i bennu a yw'r cais am adolygiad yn "ailadroddus" (gweler uchod).

Rhestr wirio a datganiad

Mae'n ofynnol i'r unigolyn neu'r corff sy'n gofyn am adolygiad hysbysu deiliad y drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb a phob "awdurdod cyfrifol" o'r cais, trwy anfon copi iddynt o'r cais, ynghyd ag unrhyw ddogfennau cysylltiedig, ar yr un diwrnod y cyflwynir y cais i'r awdurdod trwyddedu. Yna fe all awdurdodau cyfrifol, os dymunant, gefnogi neu ymuno â'ch cais am adolygiad, neu ddefnyddio'r cyfle i wneud eu cais eu hunain am adolygiad ar sail wahanol.

Mae'r awdurdodau cyfrifol yn cynnwys y canlynol, ar gyfer yr ardal lle lleolir y fangre:

- Prif swyddog yr heddlu
- Yr awdurdod tân
- Yr awdurdod iechyd yr amgylchedd
- Yr awdurdod cynllunio lleol
- Y corff cydnabyddedig sy'n gyfrifol am amddiffyn plant rhag niwed
- Arolygydd Pwysau a Mesurau (swyddogion safonau masnach)
- Ac - Gyda golwg ar longau yn unig,- i) Asiantaeth yr Amgylchedd; ii) Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain; iii) Asiantaeth yr Arfordir a Gwylwyr y Glannau ac os yw'n wahanol i'r rhain, iv) yr awdurdod mordwyo perthnasol / awdurdodau ar gyfer angorfa(angorfeydd) arferol y llong neu unrhyw ddyfroedd lle bwriedir mordwyo iddynt ar adeg pryd defnyddir y llong ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy.

Os ydych am wirio pwy yw awdurdodau cyfrifol yn eich ardal, dylech gysylltu â'ch awdurdod trwyddedu. Bydd llawer yn darparu'r wybodaeth yma ar wefannau eu Cynghorau. Trwy dicio'r rhestr hon rydych yn datgan eich bod wedi cyflawni'r camau a restrwyd.

Llofnodion

Mae'n rhaid llofnodi'r ffurflen gais. Gall asiant ymgeisydd (er enghraifft, cyfreithiwr) lofnodi'r ffurflen ar ei ran ar yr amod bod ganddo awdurdod i wneud hynny. Lle mae mwy nag un ymgeisydd, dylai'r ddau ymgeisydd, neu eu hasiantiaid perthnasol, lofnodi'r ffurflen gais.

Beth sy'n digwydd ar ôl cyflwyno cais am adolygiad?

Mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu hysbysebu ceisiadau am adolygiad trwydded neu dystysgrif. Byddant yn gwneud hyn trwy arddangos hysbysiad ar y fangre sy'n destun adolygiad, ac yn swyddfeydd yr awdurdod trwyddedu, am 28 diwrnod dilynol yn cychwyn y diwrnod ar ôl cyflwyno'r cais iddynt. Fe all yr awdurdod trwyddedu hefyd hysbysu'r adolygiad ar eu gwefan. Yna bydd gan bartïon eraill sydd â diddordeb ac awdurdodau cyfrifol y cyfnod yma o 28 diwrnod dilynol yn cychwyn y diwrnod ar ôl cyflwyno'r cais i gyflwyno sylwadau am yr adolygiad.

Os nad yw'r cais am adolygiad yn cael ei wrthod yna mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawiad yn yr awdurdod trwyddedu i ystyried y cais, oni bai fod pob parti yn gytûn nad oes angen gwneud hynny. Er enghraifft, fe all yr awdurdod trwyddedu gynnig ceisio datrys y mater trwy gyfrwng cytundeb wedi'i negydu y tu allan

i'r gwrandawiad ffurfiol. Bydd angen i chi benderfynu a yw hyn yn addas i chi ond fe allwch, wrth gwrs fynnu bod gwrandawiad yn cael ei gynnal.

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ysgrifennu atoch gyda dyddiad ac amser y gwrandawiad a bydd yn eich hysbysu o'r weithdrefn i'w dilyn yn y gwrandawiad.

Fel yr unigolyn neu'r corff sy'n gofyn am adolygiad, mae'n ofynnol i chi roi rhybudd i'r awdurdod trwyddedu o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn cychwyn y gwrandawiad, yn datgan y canlynol:

- A fyddwch yn mynychu'r gwrandawiad yn bersonol
- A fydd rhywun arall yn eich cynrychioli (e.e. cynghorydd / AS / cyfreithiwr)
- A ydych o'r farn bod gwrandawiad yn ddiangen (os, er enghraifft ydych wedi dod i gytundeb cyn y gwrandawiad ffurfiol)
- Unrhyw gais i ganiatáu i unigolyn arall fynychu'r gwrandawiad, yn cynnwys sut y gallent gynorthwyo'r awdurdod mewn perthynas â'r cais.

Mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu cyn gynted â phosib (trwy rybudd ysgrifenedig dim hwyrach na 24 awr cyn cychwyn gwrandawiad, neu ar lafar yn y gwrandawiad) os ydych am dynnu eich cais yn ôl.

Gwrandawiadau

Fel rheol cynhelir gwrandawiadau yn gyhoeddus, oni bai fod yr awdurdod trwyddedu yn penderfynu ei fod er lles cyhoeddus cynnal y cyfan, neu ran o'r gwrandawiad yn breifat. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r gwrandawiad.

Fel rheol bydd gwrandawiadau yn cael eu cynnal ar ffurf trafodaeth ac yn cael eu harwain gan yr awdurdod trwyddedu, a fydd yn cynnwys tri o gynghorwyr etholedig yr awdurdod lleol (sef yr is-bwyllgor trwyddedu a ffurfiwyd o'r pwyllgor trwyddedu llawn o 15 cynghorydd). Bydd yr awdurdod trwyddedu yn egluro'r weithdrefn i'w dilyn. Bydd yn penderfynu ar unrhyw gais i unigolion eraill ymddangos yn y gwrandawiad. Bydd yn ystyried y dystiolaeth a gynhyrchwyd mewn cefnogaeth gerbron y gwrandawiad a gall ystyried tystiolaeth a gynhyrchwyd gan barti yn y gwrandawiad, ond dim ond os yw pob parti yn gytûn. Gellir hefyd cyflwyno tystiolaeth bellach os yw'r awdurdod yn gofyn am hynny er mwyn eglurder ynghylch mater sydd gerbron y gwrandawiad. Ni chaniateir croesholi un parti gan barti arall yn ystod gwrandawiad, oni bai fod yr awdurdod trwyddedu o'r farn bod hynny'n angenrheidiol. Mae hawl gan y partïon i annerch yr awdurdod a chaniateir yr un amser iddynt i holi unrhyw gwestiynau i'r parti arall. Bydd yr awdurdod yn anwybyddu unrhyw wybodaeth nad yw'n ei hystyried yn berthnasol.

Mae'n bwysig eich bod yn ystyried yr hyn yr ydych am ei ddweud mewn gwrandawiad, oherwydd bydd deiliad y drwydded neu dystysgrif a'r pwyllgor wedi gweld eich cais am adolygiad, ac efallai'n cael cyfle i'ch holi ynghylch yr hyn yr ydych yn ei ddweud.

DS - Fe all gwrandawiad fynd yn ei flaen er gwaethaf absenoldeb unrhyw barti e.e. - y sawl sy'n gwneud cais neu'r sawl sydd â diddordeb)

Beth sy'n digwydd ar ôl gwrandawiad?

Os na wneir unrhyw benderfyniad yn y gwrandawiad, mae gan y pwyllgor uchafswm o 5 diwrnod i'r dyddiad neu ddyddiad olaf y gwrandawiad i ddod i benderfyniad. Yn dilyn adolygiad, fe all awdurdod trwyddedu wneud y canlynol:

- Penderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu
- Addasu neu ychwanegu amodau i'r drwydded
- Eithrio gweithgaredd trwyddedadwy o'r drwydded
- Symud y goruchwyliwr mangre dynodedig
- Gohirio'r drwydded am gyfnod (dim mwy na 3 mis)
- Diddymu'r drwydded

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch gwneud cais am adolygiad, cysylltwch ag adran trwyddedu eich cyngor lleol.